| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Y CYNGOR |
| **DYDDIAD** | 4 HYDREF 2012 |
| **TEITL** | GORFODAETH RHEOLI CŴN |
| **PWRPAS** | YMATEB I RYBUDD O GYNNIG |
| **ADRODDIAD GAN** | ALED DAVIES - PENNAETH ADRAN RHEOLEIDDIO & GWYN MORRIS JONES - PENNAETH ADRAN PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL |
| **AELODAU CABINET** | CYNGHORYDD W GARETH ROBERTS<br>CYNGHORYDD JOHN WYN WILLIAMS |

## 1. CEFNDIR

1.1 Cyflwynwyd rhybudd o gynnig ar y mater yma i'r Cyngor ar 16 Rhagfyr, 2010. Roedd y cynnig yn gofyn i'r Cyngor *"symud ymlaen ar frys i sicrhau fod arwyddion yn cael eu gosod yn nhref Caernarfon a mannau eraill poblog, er atal cŵn rhag rhedeg yn rhydd, heb fod ar dennyn".* Penderfynodd y Cyngor gyfeirio'r cynnig i'w ystyried gan Bwyllgor Craffu yr Amgylchedd.

1.2 Cyflwynwyd adroddiad dechreuol ar Orchmynion Rheoli Cŵn gan Pennaeth yr Adran Rheoleiddio ar y cyd gyda Pennaeth yr Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol i Bwyllgor yr Amgylchedd ar 30 Mehefin, 2011. Penderfynodd y Pwyllgor:

- *Bod swyddogion perthnasol i ymgynghori a gwaith pellach ar y gorchmynion yn ystod y misoedd nesaf gan ystyried yr opsiynau mwyaf addas.*
- *Cyflwyno bid ariannol fel bo yn briodol ar yr amser addas."*

1.3 Cyfeiriwyd adroddiad dilynol gan y Penaethiaid i Bwyllgor yr Amgylchedd ar 26 Ionawr, 2012.

1.4 Ar y ddau achlysur y cyflwynwyd y mater i Bwyllgor yr Amgylchedd, lleisiodd yr aelodau eu cefnogaeth gryf i ddefnyddio Gorchmynion Rheoli Cŵn fel arf rheolaethol ychwanegol all hwyluso ymdrechion y Cyngor i weithredu yn fwy effeithiol ar y mater yma.

1.5 Yng nghyfarfod o Gabinet Cyngor Gwynedd a gynhaliwyd 24 Gorffennaf 2012 penderfynwyd:

i) Cadarnhau argymhelliad Pwyllgor yr Amgylchedd a'r Bwrdd Rhaglen Amgylchedd ac Isadeiledd i sefydlu a mabwysiadu Gorchmynion Rheoli Cŵn.

ii) Cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar fabwysiadu'r cynigion yn unol â'r ddeddfwriaeth.

iii) Bod hyd at £80,000 ar gael yn y flwyddyn gyntaf a £57,000 y flwyddyn o gyllideb barhaol yn cael ei glustnodi o gyllideb y Cynllun Tair Blynedd ar gyfer gwireddu'r nod o fabwysiadu Gorchmynion Rheoli Cŵn os yw'r ymgynghoriad cyhoeddus yn cadarnhau awydd cymunedau'r Sir i'w gwireddu.

1.6 Bydd yr ymgynghoriad yn cael ei gynnal o'r 17 Medi 2012 hyd at 05 Tachwedd 2012 a'r nod yw adrodd yn ôl i'r Cabinet cyn diwedd y flwyddyn neu yn fuan yn y flwyddyn newydd.

1.7 Hyderir y byddai mabwysiadu Gorchymyn yn cryfhau arfogaeth y Cyngor i ymdrin â rheoli cŵn o fewn y Sir.